

Gwybodaeth Undebol

Cynrychiolydd UCAC: Canllawiau

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynrychiolydd UCAC: Canllawiau

Diolch yn fawr i chi am gytuno i fod yn gynrychiolydd dros aelodau UCAC yn eich ysgol neu goleg.

Mae'r rôl yn un allweddol - chi yw'r cyswllt cyntaf rhwng yr aelodau yn yr ysgol/coleg â'r Gymdeithas Sir, y Cyngor Cenedlaethol a'r Brif Swyddfa yn Aberystwyth.

Barn yr aelodau yw barn UCAC. Fel Cynrychiolydd rydych yn gyswllt pwysig iawn i drosglwyddo'r farn honno i'r Undeb ac i drosglwyddo gwybodaeth a chyngor i'r aelodau.

Chi fydd wyneb cyhoeddus UCAC i'r aelodau yn y man gwaith - a chyswllt cyntaf UCAC gydag aelodau newydd a darpar aelodau yn eich gweithle. Mae'n siŵr y byddwch yn eu croesawu fel aelodau newydd o staff, beth bynnag, ond cofiwch, hefyd, wneud eich hun yn hysbys iddynt fel cynrychiolydd undeb.

Beth yw dyletswyddau cynrychiolydd undeb?

Mae UCAC yn ymwybodol o lwyth gwaith ein haelodau. Rydym yn awyddus i sicrhau nad yw gwaith undebol yn ychwanegu dyletswyddau gormodol. Rydym yn gofyn i chi wneud rhai pethau i sicrhau presenoldeb i UCAC yn eich gweithle.

Mae rhai Awdurdodau Lleol yn rhoi rhywfaint o amser digyswllt i Gynrychiolydd Undeb mewn ysgol. Os nad yw'n glir os yw hynny'n wir yn eich awdurdod/ysgol chi, gall eich Swyddog Maes helpu i gael ateb.

1. Gwirio manylion aelodaeth

- Dechrau'r flwyddyn academiaidd bydd y Brif Swyddfa yn gofyn i chi wirio'r rhestr aelodau. Gallwch ofyn i'r unigolion ar y rhestr wirio'u manylion a nodi unrhyw newidiadau, e.e. cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, cyfenw.
- Os oes aelod newydd ychwanegwch y manylion.
- Os oes rhywun wedi symud i leoliad gwaith arall, yna bydd angen i chi nodi eu hymadawiad, ac, os yn bosib, nodi i ble mae'r aelod wedi symud.

2. Recriwtio aelodau newydd

- Chi yw un o'r bobl bwysicaf i recriwtio aelodau newydd i UCAC. Gallwch annog athrawon/darlithwyr newydd i'ch sefydliad i ymaelodi, os nad ydynt yn aelodau'n barod.

- Os bydd yr aelod newydd yn eich enwi chi fel y person sydd wedi argymhell ymaelodi, gallai'r aelod newydd a chithau fel y recriwtiwr dderbyn swm o arian dan y cynllun Nerth i Nerth

3. Cylchlythyr Cynrychiolwyr, Yr Athro a Phosteri UCAC

Unwaith y tymor byddwch yn derbyn Cylchlythyr Cynrychiolwyr. Mae'n bosib y bydd dogfennau eraill yn amgaaedig e.e. copi o Yr Athro neu boster.

Gofynnwn i chi:

- osod Yr Athro mewn man amlwg yn yr ystafell staff
- arddangos y poster mewn man amlwg ar hysbysfwrdd staff sydd wedi'i glustnodi ar gyfer poster undebol
- tynnu unrhyw hen bosteri

4. Trefnu cyfarfodydd ar gyfer aelodau

- Mae trefnu cyfarfodydd yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bod aelodau'n ymwbybodol o bresenoldeb UCAC yn eich gweithle.
- Byddai'n werth trefnu cyfarfod 2-3 gwaith y flwyddyn, os yn bosib, fel bod cyfle gyda chi i rannu gwybodaeth a chyfle i aelodau godi pryderon.
- Gallwch drefnu cyfarfod ar unrhyw adeg yn ôl yr angen yn enwedig os bydd aelodau'n codi pryderon am fater yn yr ysgol/coleg. Gall Swyddogion Maes fod ar gael yn ôl yr angen.

5. Ymateb i ymholiadau neu bryderon

Beth allwch wneud pan fydd aelodau yn yr ysgol/coleg yn mynegi pryder am rywbeth neu'n gofyn am gyngor, naill ai mewn cyfarfod neu fel unigolyn?

- Efallai bydd Taflen Wybodaeth berthnasol yn rhoi cyngor addas i'r aelod. Gallwch gyfeirio'r aelod at y daflen berthnasol ar wefan UCAC, neu lawrlwytho copi iddynt.
- Os bydd mater o bryder yn codi am weithdrefnau'r ysgol/coleg gellir gofyn am gyfarfod gyda'r pennaeth i drafod hyn. Gellir ffonio am gyngor gan y Swyddog Maes cyn y cyfarfod, yn ôl yr angen.
- Efallai y bydd mater sirol yn codi ac yn y fath achos, cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd Sir fel bod modd codi'r mater yn y Fforwm Cyd-Undebol yn y Sir a gynhelir unwaith y tymor, lle mae Ysgrifenyddion

Sir yr holl undebau'n cwrdd i drafod gyda swyddogion addysg yr Awdurdod Lleol.

- Pan fydd rhywbeth difrifol o'i le, e.e. proses disgyblu'n datblygu, bygythiad i swydd neu swyddi, angen cefnogaeth ar adeg o salwch hir dymor, mae'n bwysig cynghori'r aelod i gysylltu gyda'r Swyddog Maes. Nid eich cyfrifoldeb chi yw cynrychioli aelodau mewn achosion.
- Mewn achos o ddiswyddo oherwydd gormodedd (*redundancy*) mae'n bwysig sicrhau bod y Swyddog Maes yn ymwybodol o'r sefyllfa yn yr ysgol/coleg er mwyn gallu cynnig cefnogaeth.

6. Cyfarfod gyda'r pennaeth

Pan fydd penaethiaid (neu'r tîm rheoli) yn trafod yn rheolaidd gyda'r undebau mae'r berthynas rhwng y staff a'r tîm rheoli yn aml yn iachach ac yn hapusach.

- Pan fydd newidiadau'n digwydd (e.e. addasu polisi neu gyflwyno polisi newydd; newidiadau i strwythur staffio) dylai'r pennaeth alw cyfarfod gyda'r cynrychiolwyr undebau.
- Os bydd rhywbeth yn poeni'r holl athrawon/darlithwyr neu grŵp ohonynt, atoch chi y bydd aelodau UCAC yn troi i gyd-drafod gyda'r cynrychiolwyr undebau arall ac i godi materion ar eu rhan gyda'r pennaeth.
- Ar y cyd, byddwch chi a'r cynrychiolwyr undebau eraill yn gallu tynnu sylw'r pennaeth at ofidiau staff a gwneud yn siŵr bod cyfathrebu da yn yr ysgol/coleg.
- Efallai y bydd galw i chi fynd gydag aelod i drafod rhywbeth gyda'r pennaeth. Byddwch yno i fod yn dyst ac i sicrhau tegwch. Bydd modd i chi gael cyngor gan eich Swyddog Maes. Mae cadw cyfrinachedd yr aelod yn hollbwysig.

7. Mynychu'r Cyfarfod Sir

- Mae'r Gymdeithas Sir yn cwrdd yn dymhorol. Bydd yr ail gyfarfod, yn ystod tymor y gwanwyn, yn Gynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Sir. Yn sgil y pandemig Covid-19, mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn digwydd ar-lein, ac mae rhywfaint o arbrofi gyda chyfarfodydd rhanbarthol yn hytrach na sirol.
- Byddwch chi a phob aelod yn y sir yn derbyn ebost i'ch hysbysebu o'r cyfarfodydd hyn. Mae croeso i bob aelod fynychu'r Gymdeithas Sir a chyfrannu at y trafodaethau.

- Byddai'n braf iawn petaech chithau fel Cynrychiolydd yn gallu mynd i gyfarfodydd i glywed y newyddion diweddaraf o fewn y sir ac i dderbyn diweddariadau, newyddion a gwybodaeth pwysig oddi wrth Swyddogion yr undeb am ddatblygiadau cenedlaethol.
- Os na fedrwyd fynd efallai byddai modd sicrhau bod aelod arall o staff yn gallu mynychu'r cyfarfod.
- Bydd y Swyddog Maes rhanbarthol yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Gymdeithas Sir. Dyma gyfle i aelodau gyflwyno gwybodaeth, unrhyw ofidiau sydd gennych am sut mae datblygiadau ym myd addysg (lleol neu genedlaethol) yn effeithio arnoch chi. Mae hyn yn gyfle arbennig i rannu gofidiau, mynegi syniadau, rhoi cyngor i gyd aelodau ac annog athrawon newydd.
- Mae'n gyfle, hefyd, i fwynhau ac i gymdeithasu.
- Bydd y ffaith fod y Swyddog Maes yno yn golygu eich bod yn gallu cael cyngor yn syth am fater o bryder.
- Ar ôl y cyfarfod gallwch rannu gyda gweddill yr aelodau yn yr ysgol / coleg unrhyw newyddion pwysig undebol ac unrhyw ddatblygiadau sirol neu genedlaethol.

8. Adeg pleidlais gudd a gweithredu diwydiannol

Mae gennych rôl bendant yn ystod y fath gyfnod i:

- wirio niferoedd ac enwau aelodau UCAC yn yr ysgol/coleg. Mae hyn yn bwysig iawn cyn i'r Brif Swyddfa drosglwyddo manylion aelodau ar gyfer y papurau pleidleisio
- annog bob aelod i bleidleisio mewn balot swyddogol
- trosglwyddo negeseuon pwysig i'r aelodau ar ran UCAC yn ystod, ac yn dilyn, y balot, e.e. y rheswm dros y bleidlais

Mewn achos o bleidlais o blaid gweithredu diwydiannol:

- byddwch yn rhoi gwybodaeth i'r pennaeth am fwriad aelodau UCAC i streicio
- NI FYDDWCH yn rhoi rhestr o enwau o aelodau UCAC i'r pennaeth - mae'r wybodaeth yma yn gyfrinachol

9. Rwy'n gallu gweld pam bod angen cynrychiolydd undebol yn yr ysgol /coleg ond sut fydda i'n elwa o gymryd y cyfrifoldeb?

- Wrth fod yn gynrychiolydd ysgol/coleg byddwch yn cael llawer o brofiadau diddorol fydd yn ehangu'ch gorwelion.

- Byddwch yn clywed am y datblygiadau diweddara ym myd addysg o fwy nag un safbwynt.
- Byddwch yn cael y cyfle i arwain a chynrychioli pobl, i drafod gyda'r tîm rheoli, yn cael cyfle i ddod i adnabod eraill sy'n gwneud yr un dyletswydd â chi mewn ysgolion a cholegau eraill.
- Gallwch fod yn gefn ac yn glust i gyd-aelodau ar adeg petrusgar yn eu gyrfa. Bydd gwybod eich bod yno'n ddigon i roi tawelwch meddwl i'ch cyd-aelodau am eu bod yn gwybod eich bod yn yr ysgol/coleg i gadw llygad ar bethau.
- Gallech ennyn parch eich cyd-athrawon ac arweinwyr ysgol, ac yn y pen draw, gall hyn eich helpu gyda cheisiadau am swyddi.

Unwaith eto, diolch yn fawr i chi am eich parodrwydd i fod yn Gynrychiolydd UCAC.

Cysylltwch â'r Swyddog Maes perthnasol am gyngor pellach, neu ffoniwch y Brif Swyddfa ar 01970 639950.

Swyddogion Maes

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru

Swyddogion eraill UCAC

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi, rebecca@ucac.cymru

Diweddarwyd: Tachwedd 2021



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru